# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2025

**Yn bresennol:** Cynghorydd Gary Pritchard (Cadeirydd)
Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Paul Ellis, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, Aled Morris Jones, Margaret Murley Roberts ac Alwen P Watkin

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Swyddog Pwyllgor (MEH),
Swyddog Gweddarlledu Gwasanaethau Pwyllgorau (FT)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones a Robin Williams

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

2 **DATGAN DIDDORDEB**

Dim.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2024 yn gywir.

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni".**

**5 PENODIADAU STAFF**

**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod swydd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wedi'i hysbysebu o 22 Tachwedd tan 17 Rhagfyr, 2024 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau.

Argymhellwyd bod y Pwyllgor Penodiadau'n dilyn y broses recriwtio, fel y cytunwyd yn flaenorol:-

- Bod y Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad y Swyddog ar gyfer y rhestr fer.
- Cynnal cyfweliad proffesiynol gyda'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.
- Bydd canlyniad y cyfweliad proffesiynol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn llywio eu penderfyniad terfynol.
- Fod yr ymgeisydd a argymhellwyd ar gyfer y rhestr fer yn cwblhau'r asesiad seicometrig annibynnol a'r asesiad MTQ48 ymlaen llaw fel nad oes angen eu cwblhau eto, ond, bydd rhaid cwblhau asesiad senario.

**PENDERFYNWYD bod argymhellion y Swyddog ar gyfer y rhestr fer yn cael eu derbyn a bod y broses recriwtio, a nodwyd uchod, yn cael ei chefnogi.**

**CYNGHORYDD GARY PRITCHARD**
**CADEIRYDD**